

| | |
|----------------------------|---|
| Adroddiad i'r | Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant |
| Dyddiad | 5 Medi 2023 |
| Swyddog Arweiniol | Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd |
| Pennaeth Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| Awdur yr Adroddiad | Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd |
| Teitl | Gorchymyn (Amryw Ffyrdd) (Terfynau Cyflymder 30mya) Cyngor Sir Ddinbych 2023 |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y gwrthwynebiadau a gafwyd mewn cysylltiad â'r Gorchymyn Traffig arfaethedig uchod. Mae'r Gorchymyn Traffig yn cynnwys cynigion i wneud y terfyn cyflymder yn 30mya ar gyfer y ffyrdd a restrir yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Bydd y darnau hyn o ffyrdd yn Eithriadau i'r terfyn amser 20 mya diodyn sy'n dod i rym ar draws Cymru ar 17 Medi 2023.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I geisio penderfyniad i wrthod y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r eithriadau arfaethedig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Yng ngoleuni'r cytundeb rhwng Cyngorwyr Sir y Wardiau a Heddlu Gogledd Cymru, bod y gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn Traffig arfaethedig yn cael eu gwrthod. Bydd hyn yn galluogi i'r Gorchymyn Traffig gael ei weithredu.

3.2 Bod y Gorchymyn Traffig yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

- 3.3 Bod yr Aelod Arweiniol yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad E).

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth a fydd yn newid y terfyn cyflymder diofyn ar Ffyrdd Cyfyngedig yng Nghymru i 20 mya ar 17 Medi 2023. Ffyrdd Cyfyngedig yw ffyrdd sydd â goleuadau stryd. Mae mwy neu lai pob ffordd yn ein dinasoedd, trefi a'n pentrefi yn Ffyrdd Cyfyngedig.
- 4.2. Mae LIC yn cydnabod na fydd terfyn cyflymder o 20mya yn briodol ar gyfer pob ffordd mewn dinasoedd, trefi a phentrefi. Maent wedi datblygu canllawiau technegol a meini prawf i helpu awdurdodai lleol ganfod ffyrdd na ddylai gael eu cynnwys yn y terfyn cyflymder 20 mya diofyn, mewn modd cyson. Yn gryno, dyma'r ffyrdd lle nad oes llawer o siawns i gerddwyr fod yn croesi. Cyfeirir at ffyrdd o'r fath fel "eithriadau".
- 4.3. Yn wreiddiol, canfuwyd 6 eithriad gan swyddogion oedd yn defnyddio meini prawf LIC. Yna mynychodd y swyddogion y chwe Grŵp Ardal Aelodau i wahodd Aelodau Lleol i awgrymu eithriadau ychwanegol i'w hystyried. Dim ond un eithriad ychwanegol a gynigiwyd gan yr Aelodau, sef Ffordd Gyswllt Glasdir yn Rhuthun. Cafodd yr awgrym ei gefnogi gan swyddogion ac mae wedi cael ei gynnwys o fewn y rhestr o eithriadau, gan roi cyfanswm diwygiedig o 7 eithriad.
- 4.4. Mae angen gwneud Gorchymyn traffig fel bod terfynau cyflymder ar gyfer yr holl eithriadau yn cael ei osod ar 30 mya.
- 4.5. Fel rhan o'r broses statudol ar gyfer gwneud Gorchymyn traffig, cafodd yr Aelodau Ward Lleol ar gyfer pob eithriad eu hymgyngori. Rodd yr holl aelodau n cefnogi'r eithriadau. Yr unig eithriad i hyn oedd na chafodd yr eithriad arfaethedig yng Ngharrog ei gefnogi gan y ddau Aelod Lleol. Yn dilyn trafodaeth ddilynol gyda'r Aelod Arweiniol, cytunwyd y byddai'r eithriad arfaethedig yng Ngharrog yn cael ei dynnu o'r Gorchymyn Traffig arfaethedig.
- 4.6. Hefyd fe ymgynghorwyd â Heddlu Gogledd Cymru ac roeddent yn cefnogi'r eithriadau, ac felly'r terfyn cyflymder ar y ffyrdd rhestredig yn aros yn 30 mya.
- 4.7. Y cam nesaf yn y broses statudol oedd hysbysiad cyhoeddus o'r Gorchymyn Traffig arfaethedig o 12 Gorffennaf 2023 i 3 Awst 2023. Ymddangosodd yr

hysbysiad cyhoeddus yn y wasg leol, ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac mewn lleoliadau amrywiol ar hyd y darnau o ffyrdd lle'r oedd yr eithriadau arfaethedig. Mae copi o'r hysbysiadau cyhoeddus dwyieithog a'r cynlluniau cyfatebol, fel y cawsant eu hysbysebu, wedi'u cynnwys yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

- 4.8. Derbyniwyd cyfanswm o 203 o sylwadau mewn ymateb i'r hysbysiad o Orchymyn Traffig arfaethedig. Rhestrir y rhain yn Atodiad C yr adroddiad hwn. Mae holl fanylion personol megis enw, manylion cyswllt a chyfeiriad IP wedi cael eu tynnu o'r ddogfen hon. Nid oedd mwyafrif y sylwadau hyn yn gwrthwynebiadau dilys i'r Gorchymyn Traffig arfaethedig, ond roeddent yn sylwadau gan bobl oedd eisiau cyfleu eu gwrthwynebiad i Lywodraeth Cymru yn newid y terfyn cyflymder diofyn i 20 mya a/neu bobl oedd yn credu y dylai mwy o eithriadau gael eu cynnwys ar y rhestr. Y rheswm nad yw sylwadau o'r fath yn wrthwynebiadau dilys yw gan fod y Gorchymyn Traffig arfaethedig yn dweud, "Rydym yn cynnig gwneud y terfyn cyflymder yn 30 mya ar gyfer y ffyrdd a restrir isod, fel na fyddent yn newid i 20mya yn ddiodyfyn ar 17 Medi 2023." Mae gwrthwynebiad i'r Gorchymyn arfaethedig ond yn ddilys os yw rhywun yn anghytuno gyda'r cynnig i gadw'r terfyn cyflymder yn 30 mya ar gyfer un neu fwy o'r ffyrdd a restrir. Enghraifft o hyn yw pan na fydd rhywun eisiau i un o'r darnau ffyrdd aros yn 30 mya, ond yn hytrach eisiau ei newid i 20 mya, h.y. i beidio â chael ei wneud yn eithriad.
- 4.9. Mae rhestr gryno o wrthwynebiadau dilys fesul ardal wedi'i ddarparu yn Atodiad D yr adroddiad hwn.
- 4.10. Yn dilyn ystyriaeth o'r ymatebion a dderbyniwyd, gwnaeth tri Aelod Lleol Rhuthun gais i'r eithriad arfaethedig yn Llanfwrog gael ei dynnu o'r Gorchymyn Traffig arfaethedig. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Aelod Arweiniol, derbyniwyd y cais hwn, ac mae eithriad Llanfwrog wedi cael ei dynnu o'r Gorchymyn Traffig arfaethedig.
- 4.11. Ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd yn y gwrthwynebiadau ar gyfer y pum eithriad arfaethedig arall (fel y nodwyd yn Atodiad A), argymhellir bod y gwrthwynebiadau hyn yn cael eu gwrthod, ar y sail fod yr eithriadau arfaethedig wedi cael eu canfod drwy ddefnyddio canllawiau technegol Llywodraeth Cymru ar gyfer gosod eithriadau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r Penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol yn angenrheidiol er mwyn gwneud eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn arfaethedig o 20 mya. Felly, mae ei angen fel rhan o'r broses o addasu i'r newid mewn deddfwriaeth terfyn cyflymder a wneir gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y terfyn cyflymder diofyn o 20 mya yw gwella diogelwch ar y ffyrdd ac annog mwy o ddefnydd o ddulliau teithio llesol, sydd yn cyfrannu tuag at y themâu Cynllun Corfforaethol, "Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal", a "Sir Ddinbych mwy Gwyrdd".

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r gost o wneud y Gorchymyn Traffig ar gyfer yr eithriadau oddeutu £2,000. Bydd rhai arwyddion terfyn cyflymder ychwanegol, sef "arwyddion ategu" angen cael eu gosod ar golofnau lampau o fewn hyd y ffyrdd y mae'r eithriadau'n gymwys. Mae'r costau hyn yn isel ac ni fydd yn fwy na £1,000 ar gyfer yr holl eithriadau arfaethedig.

6.2. Mae'r holl gostau uchod sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn Traffig, gan gynnwys amser y swyddogion, yn cael ei ariannu'n llawn gan grant Llywodraeth Cymru.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae'r eithriadau eu hunain ag effaith niwtral yn bennaf, gan eu bod yn cadw'r terfyn cyflymder o 30 mya a oedd eisoes mewn lle.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd ar y Gorchymyn Traffig gan ddilyn y weithdrefn statudol safonol ar gyfer Gorchymynion Traffig fel y nodir ym mharagraffau 4.5 i 4.7.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r Cyngor gan fod y costau bychain yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Os nad yw'r gwrthwynebiadau yn cael eu gwrthod, yna ni ellir gweithredu'r Gorchymyn Traffig. Byddai hyn yn golygu y byddai'r ffyrdd rhestredig yn newid i derfyn cyflymder 20 mya yn ddiodyn, gan na fyddent yn eithriad i'r terfyn cyflymder diodyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

11.2. Yn unol â'r pwerau a ddirprwyir i'r Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, yn Adran 13 Atodiad 2(B) o Gyfansoddiad y Cyngor.